

Crynodeb Gwirio Ansawdd

The NEAT Clinic

Dyddiad y gweithgarwch: 3 Mawrth
2022

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o The NEAT Clinic fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae The NEAT Clinic wedi'i leoli yng Ngorseionon, Abertawe ac mae'n cynnig ystod o wasanaethau harddwch. Mae'r rhain yn cynnwys colur lled-barhaol¹, plicio croen glycolig² a botox³, yn ogystal ag amrywiaeth o driniaethau gan dde defnyddio dyfais golau pwls dwys⁴. Mae'r rhain yn cynnwys tynnu blew ac adieuangu'r croen⁵.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2011

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 3 Mawrth 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Sut ydych chi'n sicrhau bod y cyfundrefnau atal a rheoli heintiau a'r cyfundrefnau glanhau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut mae urddas cleifion yn cael ei gynnal? Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r canlynol o ganlyniad i COVID-19, os o gwbl?

¹Mae "colur lled-barhaol" a elwir hefyd yn "meicrobigmentiad" yn fath o datwio cosmetig dros dro.

²Mae asid glycolig yn plicio croen marw oddi ar wyneb a haenau canol y croen, gan gael gwared ar gelloedd croen marw a malurion. Gan fod asid glycolic yn cynnwys moleciwlau bach, mae'n treiddio croen yn hawdd, gan gael gwared ar y lipidau sy'n dal celloedd croen marw gyda'i gilydd.

³Mae "Botox" yn enw brand ar docsin a gynhyrchir gan y bacteria *Clostridium botulinum* ac a ddefnyddir i drin arwyddion o heneiddio'r croen fel crychau.

⁴Mae dyfais golau pwls dwys yn defnyddio maes dwys o olau i ddinistrio ffoliglau blew a chael gwared ar flew diangen

⁵Mae therapi golau pwls dwys, sef ffoto-driniaeth i'r wyneb, yn ffordd o wella lliw a gwead eich croen heb lawdriniaeth gan ddefnyddio maes golau dwys.

-
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
 - Sut ydych chi'n sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol?
 - Sut ydych chi'n sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol, gan gynnwys sut mae offer laser yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar
- Polisiâu/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys yr asesiad risg ar gyfer diogelwch tân (os yw'n berthnasol)
- Tystysgrifau atebolrwydd yswiriant.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y newidiadau yr oedd wedi'u gwneud i amgylchedd y clinig er mwyn amddiffyn cleientiaid rhag COVID-19 a sicrhau amgylchedd diogel. Roedd y rhain yn cynnwys gweithredu polisi drws dan glo fel mai dim ond y cleientiaid hynny ag apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw a allai fynd i mewn i'r clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym, er y bu sgrin ganddynt wrth ddesg y dderbynfa, ei bod wedi cael ei thynnu'n ddiweddar.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu i ganiatáu amser rhyngddynt i awyru'r ystafell driniaeth a dim ond un cleient oedd yn cael mynd i mewn i'r clinig ar y tro. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y clinig wedi lleihau'r cynhyrchion a oedd yn cael eu harddangos er mwyn ei gwneud yn haws glanhau'r clinig.

Gwelsom dystiolaeth fod asesiad risg amgylcheddol wedi'i gynnal ym mis Chwefror 2022 a oedd yn ystyried y risgiau cynyddol yn ymwneud â defnyddio dyfais golau pwls dwys. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod diffoddwyr tân newydd wedi'u prynu o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom dystiolaeth o dystysgrif ddilys ar gyfer yswiriant

Atebolrwydd Cyhoeddus⁶.

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod urddas a phreifatrwydd cleientiaid yn cael eu cynnal tra'u bod yn y clinig. Dywedwyd wrthym y byddai cleientiaid yn cael eu trin mewn ystafell breifat. Roedd cleientiaid yn gallu dod â hebryngwr gyda nhw pe dymunant a byddai cwestiynau o natur sensitif neu gyfrinachol yn cael eu gofyn mewn rhan breifat o'r clinig. Gan mai dim ond un cleient oedd yn cael mynediad i'r clinig ar y tro, roedd hyn yn golygu y gellid cynnal sgysiau'n gyfrinachol mewn modd a oedd yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleient.

Dywedwyd wrthym fod y cleientiaid yn cael eu hannog i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod poster i wedi'u harddangos cyn y pandemig i annog siarad Cymraeg a bod gan y clinig gyflogeion sy'n siarad Cymraeg.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig ddarparu dogfennau i ni gan gynnwys asesiad risg a pholisi tân. Ni ddarparwyd hyn i'r arolygydd. Gallai hyn olygu efallai nad yw'r staff sy'n gweithio yn y clinig yn ymwybodol o'r risgiau cysylltiedig a sut i'w lliniaru, gan arwain at risg o niwed i gleientiaid a staff oherwydd tân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad risg tân llawn a chynhwysfawr ar gyfer y clinig a chael polisi tân ar waith. Dylid adolygu'r ddwy ddogfen yn flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.

Er bod asesiad risg amgylcheddol wedi'i gwblhau, canfuom fod hwn yn cynnwys manylion cyfyngedig o'r camau gweithredu dilynol a roddwyd ar waith gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r pandemig.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y camau gweithredu sy'n ofynnol i reoli risgiau yn cael eu dogfennu'n briodol mewn asesiad risg amgylcheddol cynhwysfawr.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

⁶Mae Atebolrwydd Cyhoeddus yn fath o yswiriant ar gyfer busnesau o bob maint, ar draws amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae'n eich yswirio os yw cleient neu aelod o'r cyhoedd yn honni eu bod wedi cael eu hanafu, neu eu heiddo wedi'i ddifrodi, oherwydd eich gweithgareddau busnes

-
- Polisiau rheoli heintiau cyffredinol a pholisiau penodol ynghylch COVID-19
 - Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r trefniadau sydd ar waith i amddiffyn staff a chleientiaid rhag risgiau COVID-19. Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i gleientiaid fod yn bresennol ar amser ar gyfer eu hapwyntiadau a gwisgo gorchudd wyneb. Cynigiwyd masgiau tafladwy i'r cleientiaid hynny a fynychodd heb orchudd wyneb.

Dywedwyd wrthym fod hylif diheintio dwylo ar gael wrth fynedfa'r clinig ac anogwyd cleientiaid i'w ddefnyddio. Anogwyd y staff i gynnal arferion hylendid dwylo da wrth drin cleientiaid a dim ond tyweli papur untro a ddefnyddiwyd yn ystod triniaethau. Gwaredwyd ar unrhyw wastraff a gynhyrchwyd mewn bin gwastraff clinigol a dywedwyd wrthym fod gan y rheolwr cofrestredig contract ar waith i'w gasglu'n rheolaidd.

Byddai gofyn i gleientiaid gwblhau holiadur COVID-19 cyn derbyn triniaeth ac roedd gan y clinig system apwyntiadau ar waith a oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau Profi, Olrhain a Diogelu⁷.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y rheolwr cofrestredig yn cynnal profion llif unffordd rheolaidd i sicrhau diogelwch staff a chleientiaid a bod staff yn cael eu hannog i lynu at y canllawiau cenedlaethol "Pum cam i gydweithio'n fwy diogel"⁸.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod mesurau glanhau wedi cynyddu oherwydd y pandemig. Roedd rota glanhau wedi'i sefydlu i sicrhau bod pob rhan o'r clinig yn cael ei glanhau'n rheolaidd, ac roedd mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml, megis yr ystafell driniaeth, dolenni drysau a switsis golau, yn cael eu glanhau'n fwy trwyadl eto gyda chadachau diheintio cymeradwy.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am yr hyfforddiant yr oedd y staff yn ei ddilyn ar atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ynglŷn â COVID-19, cyfarpar diogelu personol ac atal a rheoli heintiau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd o bell, gofynnodd AGIC am dystiolaeth o bolisi neu asesiad risg COVID-19 a oedd yn nodi sut y byddai'r risgiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 yn cael eu lliniaru. Ni ddarparwyd hyn i'r arolygydd. Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd,

⁷Profi, Olrhain a Diogelu yw'r weithdrefn a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i olrhain cysylltiadau achosion coronafeirws hysbys er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr angen i hunanynysu os oes angen.

⁸Mae "Pum cam i gydweithio'n fwy diogel" yn fenter pum cam gan lywodraeth y DU i annog gweithleoedd i lynu at weithio mwy diogel yn ystod pandemig COVID-19. [Staying COVID-19 Secure in 2020 poster \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd polisi nac asesiad risg ar waith.

Mae gan fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill ddyletswydd i amddiffyn eu gweithwyr a'u cwsmeriaid tra'u bod ar eu safle. Rhaid i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill gynnal asesiad risg coronafeirws pwrpasol o'u safleoedd a'u gweithgareddau a chymryd mesurau rhesymol i leihau cysylltiad â choronafeirws a'i atal rhag lledaenu yn seiliedig ar yr asesiad risg pwrpasol hwnnw. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru o dan y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020.

Mae'r diffyg asesiad risg yn golygu na all AGIC fod yn sicr bod y risg o drosglwyddo COVID-19 yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae hyn yn peri risg sylweddol i lesiant a diogelwch staff a chleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cynnal asesiad risg COVID-19 ac yn diweddarau unrhyw bolisiau neu weithdrefnau presennol fel y nodir yn yr asesiad risg. Rhaid anfon yr asesiad risg i AGIC.

O ganlyniad i'r pryder hwn a'r risgiau cysylltiedig i gleientiaid a staff, anfonwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio at y darparwr cofrestredig i ofyn am sicrwydd o ran y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryder a nodwyd ac i sicrhau bod diogelwch cleientiaid a staff yn cael ei amddiffyn. Ar ôl hynny, derbyniwyd ymateb gan y practis o fewn y dyddiad cau penodol a oedd yn darparu sicrwydd ac yn gosod y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd.

Darparodd y rheolwr cofrestredig gopi i ni o'r polisi atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y clinig. Roedd y polisi hwn yn ddyddiedig Ionawr 2020 ac nid oedd wedi'i ddiweddarau ers hynny. Yn ogystal, roedd y polisi yn cyfeirio at sefydliad trydydd parti yn ymwneud â chlybiau chwaraeon ac yn cyfeirio at sefydliadau nad oeddent yn berthnasol i Gymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi atal a rheoli heintiau yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau a'i fod yn berthnasol i'w ardal a'i weithle.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent wedi addasu eu gwasanaeth yng ngoleuni effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus

-
- Copi o'r canllaw i gleifion diweddaraf
 - Cofnodion hyfforddiant staff
 - Polisiâu/gweithdrefnau diogelu
 - Datganiad o ddiben
 - Tystysgrifau hyfforddiant diogelu
 - Tystysgrifau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth
 - Ffurflenni ymgynghori, gan gynnwys ffurflenni hanes meddygol a ffurflenni cydsynio
 - Protocol triniaeth laser i gael gwared ar wallt
 - Rheolau lleol
 - Asesiad risg Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Darparodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth i ni fod holl weithredwyr y ddyfais golau pwls dwys wedi mynychu'r cwrs Craidd Gwybodaeth laser / golau pwls dwys ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn 2020.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd eu bod yn cydymffurfio â'u hamodau cofrestru o ran ystodau oedran y cleientiaid y byddent yn eu trin â'r ddyfais golau pwls dwys. Fodd bynnag, nid ydynt yn trin unigolion dan 18 oed ar hyn o bryd er mwyn lleihau nifer yr ymwelwyr sy'n mynychu'r clinig oherwydd COVID-19.

Dim ond un aelod arall o staff oedd gan The NEAT Clinic a oedd yn cynnig triniaeth gyda'r ddyfais golau pwls dwys ac nid oedd unrhyw gynlluniau ar adeg y gwiriad ansawdd i recriwtio mwy. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai meddyg a nyrs gofrestredig ar wahân yn defnyddio'r clinig i gynnig triniaethau fel botox ar sail hunangyflogedig ac yn ôl yr angen.

Cawsom ganllaw i gleifion diweddaraf y clinig a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Yn ystod y broses gwirio ansawdd, gofynnodd AGIC i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod pawb sy'n gweithio at ddibenion y lleoliad gofal iechyd annibynnol wedi cael hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Ni ddarparwyd tystysgrifau hyfforddi cyfredol i AGIC ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed ar gyfer unrhyw un o weithwyr y lleoliad.

Gallai hyn olygu efallai na fyddai arwyddion o gam-drin tuag at blentyn neu oedolyn agored i niwed a allai ddod i gysylltiad â'r lleoliad yn cael eu gweithredu mewn modd prydlon ac amserol ac y byddai'r cyfle i'w hamddiffyn yn cael ei golli.

Yn ogystal, dylai'r holl staff sy'n gweithio i'r lleoliad gofal iechyd annibynnol neu yn y lleoliad gofal iechyd annibynnol fod wedi derbyn gwiriad manylach gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd (ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion) i sicrhau eu bod o gymeriad addas i weithio yn y lleoliad gofal iechyd annibynnol.

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob unigolyn sy'n gweithio at ddibenion y lleoliad gofal iechyd annibynnol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid i'r person cofrestredig hefyd drefnu i bob gweithredwr golau pwls dwys gynnal gwiriad Datgelu a Gwahardd (manylach ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion) y gwnaed cais amdano gan yr unigolyn cofrestredig neu ar ei ran .

O ganlyniad i'r pryder hwn a'r risgiau cysylltiedig i gleientiaid a staff, anfonwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio at y darparwr cofrestredig i ofyn am sicrwydd o ran y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryder a nodwyd ac i sicrhau bod diogelwch cleientiaid a staff yn cael ei amddiffyn. Ar ôl hynny, derbyniwyd ymateb gan y practis o fewn y dyddiad cau penodol a oedd yn darparu sicrwydd ac yn gosod y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd.

Yn ystod adolygiad o'r polisi diogelu a ddarparwyd i AGIC i gefnogi'r gwiriad ansawdd, canfuom ei fod yn cyfeirio at glybiau chwaraeon ac nad oedd yn ymwneud yn benodol â gweithrediad y clinig. Yn ogystal, roedd yn cyfeirio at sefydliadau nad oeddent yn berthnasol i Gymru ac nad oedd yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol.

O ganlyniad, efallai na fydd staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe baent yn dod yn ymwybodol o blentyn neu oedolyn mewn perygl. Gallai hyn arwain at oedi wrth atgyfeirio at y tîm diogelu lleol a gallai roi oedolyn a phlentyn agored i niwed mewn perygl pellach o niwed.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi diogelu i sicrhau ei fod:

- Yn berthnasol i'r maes y maent yn gweithio ynddo
- Yn cynnwys manylion y timau diogelu lleol a sut i gysylltu â nhw
- Yn berthnasol i Gymru'n benodol.

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, gofynnodd AGIC i'r clinig ddarparu ei ddatganiad o ddiben diweddaraf fel y nodir yn y rheoliadau. Ni chyflwynwyd y datganiad o ddiben i AGIC i'w adolygu. Gallai hyn olygu efallai na fydd cleientiaid yn derbyn y wybodaeth gywir fel y'i diffinnir gan y rheoliadau y dylid eu nodi yn y datganiad o ddiben.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a bod copi'n cael ei ddarparu i AGIC. Dylai hwn hefyd fod ar gael i gleientiaid trwy wefan y clinig (os yw'n berthnasol).

Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cyflawni triniaeth yn ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i egluro triniaethau i gleifion, sut mae anghenion triniaeth yn cael eu hasesu a sut mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r offer laser.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob cleient yn derbyn ymgynghoriad llawn cyn cael unrhyw driniaeth. Rhoddwyd gwybodaeth i gleientiaid ei chadw er mwyn rhoi amser iddynt ystyried yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Dywedwyd wrthym fod hanesion meddygol yn cael eu casglu yn ystod yr apwyntiad ymgynghori cychwynnol er mwyn pennu addasrwydd triniaeth ymhellach, a bod y rhain yn cael eu diweddarau ym mhob apwyntiad dilynol i sicrhau bod y driniaeth a ddarperir yn parhau i fod yn ddiogel. Darparodd y rheolwr cofrestredig ffurflen hanes meddygol wag i ni i gefnogi'r gofyniad i wirio addasrwydd triniaeth ar gyfer unigolion.

Canfuom fod cydsyniad wedi cael ei roi gan gleifion cyn i'r driniaeth ddigwydd ac mewn unrhyw apwyntiadau dilynol. Roedd y broses hon yn cynnwys trafodaeth ynghylch risgiau, buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a ddymunir.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod prawf patsh croen wedi cael ei gwblhau ar gyfer pob claf cyn y driniaeth, a bod gwybodaeth ôl-ofal addas yn cael ei darparu i gleifion yn dilyn y driniaeth.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, gofynnodd AGIC am dystiolaeth gan y rheolwr cofrestredig ynglŷn â'r ddyfais golau pwls dwys a ddefnyddir yn y lleoliad.

Mae Amod 1 o amodau cofrestru'r gwasanaeth yn nodi mai dim ond drwy ddefnyddio dyfais golau pwls dwys Lynton Excelight IPL (rhif adnabod peiriant EXC-170-20) y gellir darparu gwasanaethau i unigolion. Fodd bynnag, yn ystod y gwiriad ansawdd, gwelsom dystiolaeth fod peiriant laser gwahanol, sef Lynton Excelight IPL (rhif adnabod peiriant EXC-504-20) yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod hwn wedi disodli'r ddyfais wreiddiol.

Cyn caniatáu cofrestriad ar gyfer defnyddio dyfais golau pwls dwys, mae AGIC yn cynnal nifer o wiriadau i sicrhau bod yr unigolion sy'n defnyddio'r ddyfais wedi'u hyfforddi a'u bod yn gymwys i wneud hynny. Byddai gwiriadau'n cael eu cynnal hefyd i sicrhau bod y systemau a'r prosesau sy'n sail i'r defnydd ohono ar waith ac yn briodol. Nid oedd AGIC wedi cynnal y

gwiriadau hyn ar gyfer y ddyfais a ddefnyddir ar hyn o bryd. Felly ni allem fod yn sicr bod triniaethau'n cael eu darparu mewn modd a oedd yn sicrhau llesiant a diogelwch y cleifion a'r staff na bod yr offer a ddefnyddir yn briodol.

Yn ystod y broses gwirio ansawdd o bell, gofynnodd AGIC i'r rheolwr cofrestredig ddarparu copi o'r rheolau lleol sy'n berthnasol i'r ddyfais golau pwls dwys a ddefnyddir yn y lleoliad. Gofynnodd AGIC hefyd am dystiolaeth o gontract cyfredol gyda Chynghorydd Amddiffyn rhag Laserau ardystiedig enwebedig fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Nodwyd, o'r dystiolaeth a ddarparwyd, nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi trefnu i'r rheolau lleol gael eu hadolygu gan arbenigwr perthnasol ym maes golau pwls dwys. Ar ben hynny, roedd y rheolau lleol a oedd ar waith yn ymwneud â dyfais golau pwls dwys wahanol i'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd. Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd yn gwybod bod angen adolygu'r rheolau lleol yn flynyddol.

Roedd dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r gofyniad i gael Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau ardystiedig enwebedig ar waith yn dangos bod trefniant ar waith hyd at fis Mai 2021. Fodd bynnag, ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu dystiolaeth i gadarnhau bod y trefniant wedi'i ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw. Felly roedd y ddyfais golau pwls dwys yn cael ei defnyddio heb set ddilys o reolau lleol a oedd yn hanfodol i reoli risgiau i iechyd, llesiant a diogelwch cleifion ac eraill.

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau bod set ddilys o reolau lleol sy'n cyfeirio at y ddyfais golau pwls dwys gyfredol yn cael eu rhoi ar waith. Rhaid i'r ddogfen hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan bawb sy'n gweithredu'r ddyfais golau pwls dwys yn y sefydliad. Byddai parhau i ddefnyddio'r ddyfais golau pwls dwys heb set ddilys o reolau lleol yn torri rheoliadau
- Darparu dystiolaeth i AGIC o gontract dilys gyda Chynghorydd Amddiffyn rhag Laserau ardystiedig enwebedig.

O ganlyniad i'r pryderon hyn a'r risgiau cysylltiedig i gleifion a staff, anfonwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio at y darparwr cofrestredig i ofyn am sicrwydd o ran y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd ac i sicrhau bod diogelwch cleientiaid a staff yn cael ei amddiffyn. Ar ôl hynny, derbyniwyd ymateb gan y practis o fewn y dyddiad cau penodol a oedd yn darparu sicrwydd ac yn gosod y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun

gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad:	The NEAT Clinic
Ward/Adran/Gwasanaeth (dilëer fel y bo'n berthnasol):	Laser/golau pwls dwys
Dyddiad y gweithgarwch:	3 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
-----------	-----------------------------	--------------------	----------------------------------	---------------------	----------

1	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi'r gorau i ddefnyddio dyfais golau pwls dwys ar unwaith a gwneud cais i amrywio amodau ei gofrestriad.	Rheoliad 15(1)(b) a 15(1)(d) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Adran 24 Deddf Safonau Gofal 2000	Mae amrywiad i'w hamodau cofrestru wedi'i gwblhau ac yn aros i gofrestriad rhif cyfresol y ddyfais golau pwls dwys gael ei ddiweddarau	Natalie	Aros am AGIC
2	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig wneud y canlynol: - Sicrhau bod set ddilys o reolau lleol sy'n cyfeirio at y ddyfais golau pwls dwys gyfredol yn cael eu rhoi ar waith. Rhaid i'r ddogfen hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan bawb sy'n gweithredu'r ddyfais golau pwls dwys yn y sefydliad. Byddai parhau i ddefnyddio'r ddyfais golau pwls dwys heb set ddilys o reolau lleol yn torri rheoliadau. - Darparu tystiolaeth i AGIC o gontract dilys gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau ardystiedig enwebedig	Rheoliad 45 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Adran 24 Deddf Safonau Gofal 2000	Mae set ddilys o Reolau Lleol ac Ardystiad Gwasanaeth wedi cael eu dyrannu		Yn syth

3	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob unigolyn sy'n gweithio at ddibenion y lleoliad gofal iechyd annibynnol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig hefyd drefnu i bob gweithredwr laser gynnal gwiriad Datgelu a Gwahardd (manylach ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion) y gwnaed cais amdano gan yr unigolyn cofrestredig neu ar ei ran.	Rheoliad 16(1)(a) a 22(1)(d) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Mae pawb sy'n gweithio ar y safle wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar Ddiogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed. Cafwyd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd gan unrhyw unigolyn sy'n gweithio ar y safle.	Natalie	Yn syth
4	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cynnal asesiad risg COVID-19 ac yn diweddarau unrhyw bolisiau neu weithdrefnau presennol fel y nodir yn yr asesiad risg. Rhaid anfon yr asesiad risg i AGIC.	Rheoliad 15(7) a 15(10) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Mae asesiad risg COVID-19 wedi'i ddiweddarau ac wedi'i anfon at AGIC	Natalie	Yn syth
5	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad risg tân llawn a chynhwysfawr ar gyfer y clinig a bod â pholisi tân ar waith. Dylid adolygu'r ddwy ddogfen yn flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.	Rheoliadau 26 (4) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Wedi'u hadolygu a'u diweddarau		Yn syth

6	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y camau gweithredu sy'n ofynnol i reoli risgiau yn cael eu dogfennu'n briodol mewn asesiad risg amgylcheddol cynhwysfawr	Rheoliad 26 a rheoliad 9 (k) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011			
7	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi atal a rheoli heintiau yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau a'i fod yn berthnasol i'w ardal a'i weithle.	Rheoliad 15(3) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Wedi'i adolygu a'i ddiweddarau	Natalie	Yn syth
8	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi diogelu i sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion canlynol: • Yn berthnasol i'r ardal y maent yn gweithio ynddo • Yn cynnwys manylion y timau diogelu lleol a sut i gysylltu â nhw • Yn berthnasol i Gymru	Rheoliad 16 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Wedi'i adolygu a'i ddiweddarau		
9	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a bod copi'n cael ei ddarparu i AGIC. Dylai hwn hefyd fod ar gael i gleientiaid trwy wefan y clinig (os yw'n	Rheoliad 6 ac Atodlen 1 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Wedi'i adolygu a'i ddiweddarau	Natalie	Yn syth

	berthnasol).				
--	--------------	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Natalie Luben

Dyddiad: 22/3/22